



Mick Antoniwn AC  
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

4 Ebrill 2019

Annwyl Mick,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Mawrth 2019 ynglŷn â **Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2019**, a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2019.

Roedd ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor yn cychwyn drwy ddweud:

---

“Fel y nodir yn adroddiad y Pwyllgor, mae rheoliad 2(13)(b) yn mewnosod paragraff 8A newydd yn Atodlen 1 i Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016. Mae'r geiriau a ddefnyddir yn y paragraff 8A newydd yn dilyn yr hyn a ddefnyddiwyd yn y Atodlen 1, lle mae “fel a ganlyn” wedi'i ddefnyddio yn y testun Cymraeg i gyfleu “as if” yn y testun Saesneg, pan fo hynny'n briodol.

Yn yr un modd, mae rheoliad 2(14)(b) yn mewnosod paragraff (8) newydd yn Atodlen 8 i Rheoliadau 2016. Mae'r geiriau a ddefnyddir yn y paragraff (8) newydd yn dilyn yr hyn a ddefnyddiwyd yn Atodlen 8, lle mae “fel a ganlyn” wedi'i ddefnyddio yn y testun Cymraeg i gyfleu “as if” yn y testun Saesneg, pan fo hynny'n briodol.”

---

Bwriad hyn oedd esbonio bod y diwygiadau dan sylw, sy'n cynnwys yr ymadrodd “fel a ganlyn”, wedi eu geirio felly er mwyn bod yn gyson â geiriad ac arddull y Rheoliadau gwreiddiol sy'n cael eu diwygio (sef Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016). Ein harfer wrth ddiwygio testun yw dilyn ieithwedd ac arddull y testun gwreiddiol. Byddai mynd yn groes i hynny yn creu testun diwygiedig anghyson. Ein nod bob amser yw sicrhau bod y testun yn glir a hygyrch i'r defnyddiwr, ac un ffordd o wneud hynny yw adlewyrchu geirfa ac ieithwedd y testun sy'n cael ei ddiwygio yn y testun sy'n diwygio.

Derbyniwn mai “fel petai” (neu “fel pe bai”) yw'r cyfieithiad arferol neu lythrennol o'r ymadrodd “as if” ac yn wir, fe welwch mai “fel pe bai” a ddefnyddir gennym i gyfleu “as if” mewn deddfwriaeth fel arfer.

Rydym wedi dechrau edrych ar ffordd rydym yn drafftio addasiadau yn y testun Cymraeg (sef pan gyflwynir diwygiadau ar ffurf testun sydd i'w ddarllen mewn ffordd arbennig ("as if") dan rai amgylchiadau), mewn ymateb i bryderon y Pwyllgor. Byddwn yn diwygio ein canllawiau arddull i'r perwyl hwn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddefnyddio iaith glir a syml yn ein deddfwriaeth.

Er gwaethaf sylw'r Pwyllgor nad yw "fel a ganlyn" yn gyfieithiad llythrennol o "as if", rydym yn dal o'r farn bod cyfiawnhad i'r defnydd o "fel a ganlyn" i gyfleu "as if" yn yr achos penodol hwn, er mwyn sicrhau cysondeb â Rheoliadau 2016. Gallaf eich sicrhau y byddwn yn cadw sylwadau'r Pwyllgor mewn cof ac yn parhau i wneud pob ymdrech i ddefnyddio iaith glir a syml mewn deddfwriaeth, er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch i bawb.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'JM', with a stylized, cursive flourish.

**Jeremy Miles AM**

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit  
Counsel General and Brexit Minister